

Yr 8 Ymddygiad Darllen

Pwrpas yr Wyth Ymddygiad Darllen yw eich helpu i ddeall deunydd darllen

Enw'r Ymddygiad a'r Symbol	Ystyr?	Syniadau ymarferol
1. Dwyn i gof 	Gosod cyd-destun i'r darllen trwy ddwyn i gof wybodaeth flaenorol am y pwnc. Dwyn geirfa berthnasol i gof. Penderfynu sut i fynd ati i ddarllen testun.	• Grid ticio gosodiadau cyn darllen ac yna ar ôl darllen • Meddwl am 5 beth rydych eisoes yn ei wybod am y pwnc • Grid GED (y golofn gyntaf) • Grid yr Wyddor (tasgu geirfa berthnasol) • Gêm Tabŵ • Gosod digwyddiadau mewn trefn
2. Hunanfonitro 	Monitro dealltwriaeth wrth ddarllen. Gwrando ar y llais mewnol sy'n siarad â chi wrth ddarllen, e.e. y llais sy'n dweud pan ydych wedi drysu/ddim yn siŵr o'r ystyr.	• Drilio beth i'w wneud pan fo gair/testun yn anodd (torri'r gair yn sillafau, darllen nôl, darllen ymlaen), dilyn y poster yn y dosbarth • Defnyddio symbolau wrth ddarllen, e.e. goleuadau traffig neu osod symbolau eraill wrth ymyl darn darllen er mwyn rhyngweithio â'r testun • Modelu ar lafar yr hyn sy'n mynd trwy'ch meddwl chi fel athro wrth ddarllen ac wrth wirio eich bod yn deall testun
3. Delweddu 	Troi'r gair yn weledol er mwyn sicrhau dealltwriaeth/cofio gwybodaeth.	• Creu stribed cartŵn/olwyn stori • Creu lluniau llonydd/drama • Tynnu lluniau ar siâp pen (gweler y templed)
4. Cwestiynu 	Holi cwestiynau cyn/ wrth/ar ôl darllen i sicrhau eglurder ac ehangu'r meddwl. Gwerthfawrogi nad oes rhaid cael ateb i bob cwestiwn.	• Grid GED (y golofn ganol) • Creu cwestiynau ar bapur 'post it' a'u gosod ar y testun a'u symud wrth ddod o hyd i atebion • Coeden gwestiynau • Darparu esiamplau o ddechrau cwestiynau er mwyn creu cwestiynau diddorol

Yr 8 Ymddygiad Darllen

Pwrpas yr Wyth Ymddygiad Darllen yw eich helpu i ddeall deunydd darllen

Enw'r Ymddygiad a'r Symbol	Ystyr?	Syniadau ymarferol
5. Dadansoddi a chysylltu 	Gwneud y darllen yn berthnasol trwy holi sut mae'r darn yn berthnasol i fi. Ystyried ydw i wedi darllen darn arall tebyg? Neu wyllo ffilm debyg? Gwneud cysylltiadau rhwng y testun a'r byd ehangach.	• Diagram Venn i gymharu cymeriad â chi eich hun • Ystyried sut byddech chi wedi ymateb i sefyllfa yn y darn darllen • Cymharu'r testun â thestunau eraill • Diagram Lotws er mwyn gweld cysylltiadau rhwng agweddau gwahanol ar bwnc • Rhagfynegi'r digwyddiad nesaf • Gweld cysylltiadau rhwng cymeriadau
6. Dadansoddi a darllen rhwng y llinellau 	Dod i gasgliadau a chamu y tu hwnt i'r llythrennol. Meddwl am yr ystyr ehangach.	• Posau dadansoddi (mae'r testun yn dweud hyn a hyn, felly gellir dod i'r casgliad...) • Dod i gasgliadau • Ystyried 'neges' y darn darllen
7. Dadansoddi a gwerthuso 	Ymateb trwy ddod i farn am werth y testun. Ystyried y dadleuon/safbwyntiau gwahanol mewn darn darllen.	• Edrych ar y dadleuon o blaid ac yn erbyn mewn testun • Ystyried gwerth a dibynadwyedd y testun • Ystyried y gwahaniaethau rhwng ffaith a barn yn y testun • Cymharu darnau darllen a phenderfynu pa un sydd fwyaf effeithiol • Ystyried pwrpas y testun, e.e. denu pobl
8. Dadansoddi a chrynhoi 	Dewis a dethol y wybodaeth bwysicaf yn gryno er mwyn profi dealltwriaeth.	• Diagram pysgodyn • Grid GED (y golofn olaf) • Crynhoi i nifer arbennig o eiriau • Aralleirio testun • Grid gwyddor i grynhoi geirfa berthnasol